# Amlinelliad UG a Safon Uwch Cymraeg Craidd

# Cyflwyniad

Yn y ddogfen hon mae trosolwg ar lefel uchel o'r cymhwyster UG/Safon Uwch Cymraeg Craidd.

Mae'n seiliedig ar Feini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru. **Rhaid** i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

Bydd yr amlinelliad hwn o'r cymhwyster yn gweithio fel canllaw ar gyfer datblygu'r Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (DAE). Mae'n bosibl y bydd angen ailedrych ar agweddau ar yr amlinelliad os bydd materion yn codi yn ystod y broses ddatblygu.

# Trosolwg o'r Cymhwyster

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i gyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cymru a nodir yn *Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025*, drwy ddatblygu siaradwyr hyderus, rhugl sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol yn eu bywydau personol, cymdeithasol a phroffesiynol.

Pwrpas y cymhwyster hwn yw:
- datblygu siaradwyr Cymraeg rhugl a hyderus sy'n gallu defnyddio'r iaith yn briodol ac yn effeithiol mewn ystod o gyd-destunau.
- ymestyn gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr mewn sefyllfaoedd dilys, bywyd go iawn.
- hyrwyddo hyder a chymhwysedd wrth gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- annog dinasyddiaeth weithredol a meithrin balchder yn yr iaith, diwylliant a hunaniaeth Gymraeg.
- datblygu’r sgiliau ieithyddol a throsglwyddadwy sydd eu hangen i gyfrannu at ddyfodol Cymru mewn cymunedau a gweithleoedd dwyieithog.



© WJEC CBAC Ltd.

## Strwythur Arfaethedig y Cymhwyster

Bydd y cymhwyster yn cynnwys pum uned.

| Unedau Uwch Gyfrannol |
|---|
| **Uned 1: Ffilm a Llafaredd**<br>Arholiad Llafar<br>20% o'r cymhwyster<br>30 munud<br>Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC<br><br>**Adran A-** Tasg pâr/grŵp o dri, tua 20 munud<br>**Adran B-** Tasg unigol, tua 6-10 munud<br><br>**Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu o Wanwyn 2028 ymlaen.** |
| **Uned 2: Cymru Ddoe a Heddiw**<br>Arholiad Ysgrifenedig<br>20% o'r cymhwyster<br>1 awr 30 munud<br>Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC<br><br>**Adran A-** Tasgau cyfieithu a phrawf ddarllen<br>**Adran B-** Tasg yn seiliedig ar y defnydd o'r Gymraeg ddoe a heddiw<br><br>**Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu o gyfres haf 2028 ymlaen.** |
| **Unedau Safon Uwch (yr uchod a thair uned ychwanegol)** |
| **Uned 3: Gwerthfawrogi Llenyddiaeth**<br>Asesiad di-arholiad<br>15% o'r cymhwyster<br>Wedi'i osod gan CBAC, wedi'i farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC<br><br>**Adran A-** Ymateb i gerddi gosod<br>**Adran B-** Ymateb creadigol i stori fer<br><br>**Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu o gyfres haf 2029 ymlaen.** |
| **Uned 4: Byw drwy gyfrwng y Gymraeg**<br>Arholiad Llafar<br>25% o'r cymhwyster<br>30 munud<br>Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC<br><br>**Adran A-** Tasg pâr/grŵp o dri, tua 15 munud<br>**Adran B-** Tasg unigol, cyflwyniad 10 munud a hyd at 10 munud ar gyfer sesiwn holi ac ateb<br><br>**Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu o Wanwyn 2029 ymlaen.** |
| **Uned 5: Defnydd ymarferol o'r Gymraeg**<br>Arholiad Llafar<br>20% o'r cymhwyster<br>1 awr 45 munud |



© WJEC CBAC Ltd.

**Adran A-** Cyfres o dasgau sy'n dangos defnydd ymarferol o'r iaith
**Adran B-** Tasg trawsieithu a mynegi barn

**Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu o gyfres haf 2029 ymlaen.**

Cymhwyster unedol fydd hwn.

Nid oes unrhyw hierarchaeth yn y drefn y mae'r unedau'n cael eu cyflwyno. Nid yw'r drefn yn awgrymu trefn addysgu'r unedau.

Bydd unedau UG ar gael o 2028.  Bydd unedau Safon Uwch ar gael o 2029.



© WJEC CBAC Ltd.

Bydd pob uned yn targedu'r amcanion asesu canlynol yn unol â'r pwysoliadau a nodir o fewn y goddefgarwch o +/- 5 pwynt canran:

| | | |
|---|---|---|
| **AA1** | **Deall ac ymateb**<br>i. Deall ac ymateb yn gydlynol i amrywiaeth o destunau llafar, ysgrifenedig a gweledol trwy ddewis a dehongli deunydd perthnasol.<br>ii. Coladu, cymharu a gwerthuso gwybodaeth a gyflwynir mewn amrywiaeth o destunau, croesgyfeirio o un testun i'r llall, crynhoi a dod i gasgliadau.<br>iii. Dangos gwybodaeth am destunau/pynciau penodol ac arwyddocâd eu cefndir cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol, gan ddadansoddi'n feirniadol.<br>iv. Rhyngweithio ac ymateb i eraill ac ystyried eu cyfraniadau a'u safbwyntiau.<br>v. Deall a dehongli testun trwy drawsieithu | 50% |
| **AA2** | **Cyfathrebu a mynegiant**<br>i. Cyfathrebu'n effeithiol, yn glir ac yn hyderus, gan ddangos amrywiaeth o nodweddion ieithyddol.<br>ii. Defnyddio gwybodaeth am ramadeg yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau.<br>iii. Cyfathrebu gan ddefnyddio cyweiriau ieithyddol amrywiol a defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd a chyd-destunau ac ar gyfer gwahanol bwrpasau a chynulleidfaoedd.<br>iv. Datblygu safbwyntiau a syniadau perthnasol, crynhoi a dod i gasgliadau. | 50% |

Y tair thema eang ar gyfer y cymhwyster hwn yw:

1. Hunaniaeth
2. Diwylliant
3. Cynefin



© WJEC CBAC Ltd.

# Gwybodaeth am Unedau

## Uned 1 - Arholiad Llafar: Ffilm a Llafaredd

**Pwrpas yr uned hon yw:**

- datblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o hanes a datblygiad y Gymraeg
- dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cynnwys, themâu a'r syniadau allweddol a gyflwynir yn ffilm *Y Sŵn*
- cyflwyno ymateb gwybodus a phersonol i'r ffilm a rôl S4C heddiw mewn cymdeithas gyfoes Gymreig.

Bydd dysgwyr yn astudio ac yn archwilio'r ffilm *Y Sŵn*, gan archwilio themâu, syniadau a'r cynnwys.

- **Adran A**: Mewn parau/grwpiau o dri, bydd dysgwyr yn trafod y ffilm, gan ganolbwyntio ar y cynnwys, technegau a themâu.
- **Adran B**: Yn unigol, bydd dysgwyr yn trafod eu hymateb personol i'r ffilm ac yn myfyrio ar a rôl S4C heddiw mewn cymdeithas gyfoes Gymreig.

Bydd yr asesiad hwn yn cael ei gynnal o dan lefel uchel o reolaeth. Bydd yr uned yn cael ei hasesu gan arholwr allanol ar ddyddiad a bennir gan CBAC yn ystod tymor y Gwanwyn ym mlwyddyn gyntaf y cwrs. Ni chaniateir unrhyw nodiadau yn ystod yr asesiad hwn. Bydd y cymysgedd o dasgau ar gyfer yr uned hon yn targedu AA1 ac AA2 yn gyfartal. Rydym yn cynnig tua 20 munud ar gyfer y drafodaeth pâr/grŵp o dri, a 6-10 munud ar gyfer y dasg unigol.

Ar gyfer adran A, gall yr arholwr ofyn i ymgeiswyr drafod pynciau fel y canlynol:
- trafod y cymeriadau, a chymharu cymeriadau â'i gilydd
- trafod golygfeydd penodol
- trafod bwriadau'r cynhyrchydd
- trafod themâu penodol
- mynegi barn ac ymateb i'r gwaith

Ar gyfer Adran B, mae'n ofynnol i ddysgwyr drafod eu hymateb personol i'r ffilm Y Sŵn a myfyrio ar rôl S4C heddiw mewn cymdeithas Gymreig gyfoes. Gan ddefnyddio o leiaf ddwy raglen S4C fel ysgogiad, dylai dysgwyr ystyried:
- perthnasedd S4C heddiw er enghraifft, gwahanol fathau o raglenni, dylanwad cyflwynwyr, cymeriadau, lleoliad a lleoliad
- dylanwad S4C ar yr iaith Gymraeg fel dull dosbarthu amlgyfrwng.

Bydd canllawiau a pharamedrau ar waith ar gyfer dewis rhaglenni.

Bydd yr uned yn cael ei hasesu drwy arholiad llafar a fydd ar gael o Wanwyn 2028 ymlaen.



© WJEC CBAC Ltd.

## Uned 2 - Arholiad: Cymru Ddoe a Heddiw

**Pwrpas yr uned hon yw:**

- datblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth i ddefnyddio'r Gymraeg gydag eglurder a chywirdeb
- deall digwyddiadau a datblygiadau allweddol yn hanes y Gymraeg
- archwilio sut mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn cymdeithas gyfoes
- archwilio sut mae'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo a'i chefnogi ar lefel leol a chenedlaethol

Bydd yr uned yn cael ei hasesu drwy arholiad, sydd ar gael yng nghyfres haf y flwyddyn gyntaf o astudio. Mae'r cymysgedd o dasgau ar gyfer yr uned hon yn targedu AA1 ac AA2 yn gyfartal. Mae hyd yr arholiad yn debygol o fod oddeutu 1 awr a 30 munud, wedi'i osod a'i farcio gan CBAC. Ni fydd unrhyw ddewis yn yr uned hon.

- **Adran A-** Tasgau cyfieithu a phrawf ddarllen
- **Adran B-** Tasgau yn seiliedig ar y defnydd o'r Gymraeg ddoe a heddiw

Ar gyfer Adran A, bydd y deunyddiau asesu yn rhoi cyfle i ddysgwyr gwblhau tasgau cyfieithu a phrawf ddarllen.

Ar gyfer Adran B, bydd y deunyddiau asesu yn rhoi cyfle i ddysgwyr gyfuno gwybodaeth a dealltwriaeth o ddigwyddiadau allweddol yn hanes y Gymraeg o ganol yr 20fed ganrif hyd heddiw er enghraifft:
- Darlith Saunders Lewis Tynged yr Iaith 1962
- Ymgyrch Gwynfor Evans i sefydlu S4C
- sefydlu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
- llifogydd Cwm Tryweryn a'r ymateb
- penodi Comisiynydd y Gymraeg yn dilyn Mesur y Gymraeg (2011)
- Bil Iaith 2025.

Bydd dysgwyr yn ystyried sefyllfa bresennol y Gymraeg a beth sy’n cael ei wneud i hyrwyddo'r Gymraeg heddiw ar lefel leol a chenedlaethol e.e. gwaith Menter Iaith, yr Urdd, y cyfryngau a thechnoleg.

Bydd dysgwyr yn cwblhau'r tasgau gan ddefnyddio’r ffurfiau ysgrifenedig canlynol:
- Adroddiad
- Blog
- Erthygl
- Llythyr ffurfiol/anffurfiol



© WJEC CBAC Ltd.

## Uned 3 – Asesiad di-arholiad: Gwerthfawrogi Llenyddiaeth

**Pwrpas yr uned hon yw:**

- archwilio amrywiaeth o destunau gosod, gan gynnwys cerddi a straeon byrion
- datblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r testunau
- cyflwyno ymateb gwybodus a phersonol i'r cerddi a ddewiswyd
- datblygu ymateb creadigol i stori fer.

Bydd yr uned ar ffurf asesiad di-arholiad. Bydd y gwaith yn cael ei asesu'n fewnol a'i gymedroli'n allanol gan CBAC. Bydd gwaith ar gyfer cymedroli yn cael ei gyflwyno'n ddigidol yng nghyfres haf y flwyddyn olaf o astudio ac ar gael o gyfres haf 2029 ymlaen. Bydd y cymysgedd o dasgau ar gyfer yr uned hon yn targedu AO1 ac AO2 yn gyfartal. Bydd lefel gymysg o reolaeth ar gyfer gwahanol dasgau yn yr uned hon. Bydd lefel uchel o reolaeth ar gyfer adran A, a bydd gan ddysgwyr 3 awr i gwblhau'r asesiad. Bydd lefel isel o reolaeth ar gyfer adran B, a bydd gan ddysgwyr 3 awr i gwblhau'r asesiad. Bydd y tasgau yn statig ar gyfer yr uned hon gyda dewis o friffiau. Bydd y briffiau yn cael rhyddhau'n flynyddol ym mis Mehefin y flwyddyn gyntaf o astudio.

- **Adran A-** Ymateb i gerddi
- **Adran B-** Ymateb creadigol i stori fer

Mae detholiad o destunau ar gael ar gyfer yr uned hon, gan gynnwys cerddi a straeon byrion. Mae'r detholiad o destunau yn cynnwys gweithiau cyfoes sy'n adlewyrchu profiadau a hunaniaethau amrywiol dysgwyr a beirdd/awduron heddiw. Mae'r testunau hyn wedi cael eu categoreiddio o dan y tair thema eang: hunaniaeth, diwylliant, a cynefin:

**Cerddi**

| Diwylliant | Cynefin | Hunaniaeth |
|---|---|---|
| Gêm Bel-droed (Wrecsam)- Bryan Martin Davies | Help - Casia Wiliam | Colli Iaith - Harri Webb |
| Gwisgo - Llio Maddocks | Gweithio – Mei Mac | Croeso i Gymru - Tara Bandito |
| Cysylltu – Mei Mac | Hawl – Myrddin ap Dafydd | Grisiau – Mari George |
| Dau Lygad ar Un Wlad - Myrddin ap Dafydd | Wyth Mil o Filltiroedd – Tudur Dylan | Iaith Mam - Mihangel Morgan |
| Ar y we – Myrddin ap Dafydd | Pethau Bychain - Mei Gwynedd | Ap – Anni Llyn |
| Llwyddiant - Elin Angharad Davies | Calvin Tŷ Canol – Gwion Hallam | Methu a Medru - Ceri Wyn Jones |



© WJEC CBAC Ltd.

| | | |
|---|---|---|
| Pwy roddodd yr hawl? – Gwilym Morus | Annwyl blant yr Wcráin - Casi Wyn | Y ddraig goch a'r ddraig wen – Tudur Dylan |
| Neb - Haf Llywelyn | Glas - Bryan Martin Davies | Trio darllen Saesneg – Caryl Parry Jones |

**Straeon byrion:**
- Cot Ruby (Sarah Reynolds - cyfrol Cawl)
- Cawl (Mared Lewis - cyfrol Cawl)
- Does unman yn debyg i gartref (Zoe Pettinger)

Gall canolfannau ddewis cerddi a straeon byrion ychwanegol. Bydd canllawiau a pharamedrau ar waith ar gyfer dewis cerddi a straeon byrion ychwanegol. Rhaid i ddysgwyr astudio o leiaf 6 cherdd. Rhaid i ddysgwyr astudio o leiaf un stori fer.

Ar gyfer adran A, rhaid i ddysgwyr greu ymateb i gerddi mewn ymateb i'w briff dewisol. Bydd dysgwyr yn cyflwyno'r gwaith mewn un o'r ffurfiau ysgrifenedig canlynol:
- Adolygiad
- Blog
- Erthygl.

Ar gyfer adran B, bydd dysgwyr yn cynhyrchu ymateb creadigol i stori fer. Bydd dysgwyr yn cyflwyno'r gwaith mewn un o'r ffurfiau ysgrifenedig canlynol:
- Stori fer
- Llythyr
- Portread
- Dyddiadur
- Deialog



© WJEC CBAC Ltd.

## Uned 4 - Arholiad Llafar: Byw drwy gyfrwng y Gymraeg

**Pwrpas yr uned hon yw:**

- datblygu dealltwriaeth a defnydd o Gymraeg mewn ystod o gyd-destunau bob dydd a wrth ddatblygu sgiliau sy'n gysylltiedig â byd gwaith
- archwilio'r tair thema eang — hunaniaeth, diwylliant, a cynefin — ac ymateb yn briodol i gwestiwn sy'n gysylltiedig â'r Gymru Gyfoes
- cyflwyno persbectif personol o'r Gymraeg, gyda chysylltiadau â chyd-destunau a chynnwys astudiwyd yn Unedau 1,2 neu 3 ac ymateb yn briodol i gwestiynau.

Bydd yr uned yn cael ei hasesu gan arholwr allanol ar ddyddiad a bennir gan CBAC yn ystod tymor y Gwanwyn ym mlwyddyn olaf y cwrs. Bydd y cymysgedd o dasgau ar gyfer yr uned hon yn targedu AA1 ac AA2 yn gyfartal. Rydym yn cynnig tua 20 munud ar gyfer y dasg pâr/grŵp o dri a chyfanswm o 15 munud ar gyfer y dasg unigol. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei gynnal o dan lefel uchel o reolaeth.

- **Adran A:** Mewn parau/grŵp o dri, bydd dysgwyr yn trafod cwestiwn gan yr arholwr yn seiliedig ar bwnc o un o'r tair thema eang sy'n gysylltiedig â Chymru gyfoes.
- **Adran B:** Yn unigol, bydd dysgwyr yn cyflwyno gwybodaeth am "Beth mae'r Gymraeg yn ei olygu i mi?" ac yn ateb cwestiynau am eu cyflwyniad.

Ar gyfer Adran A, bydd dysgwyr yn archwilio cwestiwn a osodwyd gan yr arholwr yn gysylltiedig â "Cymru Gyfoes". Gall pynciau o fewn y tair thema eang gynnwys:

- **Hunaniaeth** - dathliadau, traddodiadau, gwyliau, Senedd Cymru
- **Diwylliant**- cerddoriaeth, bwyd, ffilm, teledu, chwaraeon, technoleg, cyfryngau cymdeithasol
- **Cynefin**- amgylchedd, cyfleoedd, swyddi, cyfleusterau, twristiaeth, cynaliadwyedd

Ar gyfer Adran B, bydd dysgwyr yn cyflwyno eu persbectif personol ar y cwestiwn *"Beth mae'r Gymraeg yn ei olygu i mi?".* Yn eu cyflwyniad bydd dysgwyr yn myfyrio ar ac yn archwilio:

- Dylanwadau allweddol er enghraifft pobl, sefydliadau neu brofiadau
- Cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith mewn bywyd bob dydd, addysg neu'r gymuned ehangach
- Testun(au) llenyddol Cymraeg sydd wedi eu hysbrydoli neu wedi dylanwadu ar eu barn am yr iaith Gymraeg



© WJEC CBAC Ltd.

## Uned 5 - Defnydd ymarferol o'r Gymraeg

**Pwrpas yr uned hon yw:**

- paratoi ar gyfer tasgau cyfathrebu sy'n gysylltiedig â gwaith
- cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Gymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau
- deall, dehongli a defnyddio gwybodaeth at ddiben gwahanol

Bydd yr uned yn cael ei hasesu drwy arholiad, sydd ar gael yng nghyfres yr haf, yn y flwyddyn olaf. Mae'r cymysgedd o dasgau ar gyfer yr uned hon yn targedu AA1 ac AA2 yn gyfartal. Mae hyd yr arholiad yn debygol o fod oddeutu 1 awr a 45 munud, wedi'i osod a'i farcio gan CBAC.

- **Adran A**- Cyfres o dasgau sy'n dangos defnydd ymarferol o'r iaith
- **Adran B**- Tasg trawsieithu a mynegi barn

Bydd adran A yn cynnwys cwestiynau cyfansawdd a gwahanol fathau o ymarferion ieithyddol sy'n gysylltiedig â gwaith. Gall yr ymarferion hyn gynnwys:

- ymateb i dasg benodol e.e. e-bost, nodiadau cyfarfod, post cyfryngau cymdeithasol, memos
- newid amser y ferf
- person y ferf
- o'r person cyntaf i'r trydydd person
- o'r trydydd person i'r person cyntaf
- o'r unigol i'r lluosog
- o'r lluosog i'r unigol
- dewis y ferf gywir mewn brawddeg
- dewis y gair cywir mewn brawddeg (geiriau tebyg).

Ar gyfer adran B bydd dwy dasg:

- **Tasg 1-** Bydd dysgwyr yn darllen dwy ffynhonnell yn Saesneg ac yn defnyddio'r wybodaeth i gynhyrchu dogfen yn Gymraeg, megis deunydd hyrwyddo, cynnwys gwefan neu gylchlythyr. Dylai dysgwyr ddangos ymwybyddiaeth o'u cynulleidfa darged arfaethedig.

  Bydd y deunyddiau darllen yn ymwneud â straeon newyddion cyfoes, materion cyfoes, neu gynrychiolaethau o Gymru a'r byd ehangach. Ni ddylid cyfieithu'r testun yn uniongyrchol.

- **Tasg 2-** Bydd gofyn i ddysgwyr ddeall a dehongli cynnwys y ddwy ffynhonnell



© WJEC CBAC Ltd.

# Rhesymeg

Wrth ddatblygu'r amlinelliad cymhwyster arfaethedig hwn, rydym wedi ystyried hydrinedd gafaelgarwch, dilysrwydd a dibynadwyedd, a sut i gydbwyso'r ystyriaethau hyn yng nghyd-destun gofynion Adroddiad Penderfyniadau Cymwysterau UG a Safon Uwch yn y Gymraeg a Meini Prawf Cymeradwyo (MPC) Cymwysterau Cymru (CC).

Bydd y cymhwyster hwn yn cael ei strwythuro o amgylch tair thema eang—hunaniaeth, diwylliant, a cynefin. Mae'r themâu hyn yn cyd-fynd â'r rhai a ddefnyddir yn y cymwysterau TGAU Cymraeg Craidd a Lefel 2 Cymraeg Craidd Ychwanegol, gan sicrhau cysondeb ar draws lefelau a chefnogi dilyniant a datblygiad sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr mewn cyd-destunau perthnasol, diddorol a dilys. Mae'r dull thematig hwn hefyd yn cefnogi addysgu a dysgu trwy ddarparu fframwaith clir ond digon hyblyg ac eang ar gyfer datblygu iaith.

## Uned 1

Mae'r Adroddiad Penderfyniadau UG a Safon Uwch mewn Cymraeg a'r Meini Prawf Cymeradwyo gan Gymwysterau Cymru yn nodi y dylai'r cymhwyster asesu cyfanswm o 45% o'r cymhwyster trwy arholiadau llafar, sy'n cael ei osod a'i asesu gan y corff dyfarnu. Rhaid i'r arholiadau llafar gael eu hasesu gan arholwr allanol wyneb yn wyneb a rhaid cynnwys arholiadau llafar fel rhan o'r unedau UG ac U2. Dylai'r asesiadau llafaredd gynnwys cyfleoedd i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau, gan gynnwys llenyddol ac anllenyddol.

Er mwyn bodloni'r gofynion hyn, bydd Uned 1 ar ffurf arholiad llafar gwerth 20% o'r cymhwyster cyffredinol a bydd yn cael ei asesu gan arholwr allanol wyneb yn wyneb. Bydd gofyn i ddysgwyr archwilio ac astudio'r ffilm *Y Sŵn*, sy'n disodli'r gwaith gosod a ddefnyddir yn y cymhwyster presennol. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu adborth gan ein tîm adolygu, grŵp cynghori ac adolygwyr a fynegodd awydd i gyflwyno testun mwy cyfoes a diddorol. Bwriad cynnwys ffynhonnell glyweledol yw gwneud yr uned yn fwy hygyrch, ysgogol ac apelgar i ddysgwyr.

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu yn ystod tymor y gwanwyn ym mlwyddyn gyntaf y cwrs, gan sicrhau bod gan ddysgwyr ddigon o amser i ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol. Mae'r asesiad yn cynnwys dwy gydran: tasg pâr/grŵp a thasg unigol. Mae'r strwythur hwn yn galluogi dysgwyr i ddangos eu galluoedd ieithyddol mewn gwahanol gyd-destunau. Mae'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr gyfathrebu'n ddigymell, o fewn trafodaeth grŵp ac yn annibynnol.

Credwn fod y tasgau rydym yn eu cynnig ar gyfer yr uned lafaredd hon yn ddulliau dilys o asesu'r pwrpas a'r cynnwys gan eu bod yn caniatáu i ddysgwyr ddangos eu sgiliau mewn cyd-destunau priodol.

## Uned 2

Yn unol â'r Meini Prawf Cymeradwyo, mae'r uned hon yn galluogi dysgwyr i archwilio'r Gymraeg yn ei chyd-destunau hanesyddol a chyfoes, gan gynnwys digwyddiadau allweddol sydd wedi siapio ei datblygiad. Mae hefyd yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr gryfhau eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o strwythurau iaith ysgrifenedig, gramadeg a phatrymau ieithyddol.


© WJEC CBAC Ltd.

Mae amserlennu'r asesiad ar gyfer tymor yr haf yn sicrhau bod dysgwyr yn cael digon o amser i ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol trwy weithgareddau addysgu a dysgu.

### Uned 3

Credwn fod y tasgau asesu di- arholiad a gynigir gennym ar gyfer Uned 3 yn caniatáu i ddysgwyr i ddangos eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn cyd-destunau priodol. Bydd yr uned hon yn cael ei asesu'n fewnol ac yn cael ei chymedroli'n allanol. Bydd CBAC yn cymedroli sampl o waith ymgeiswyr o bob canolfan. Bydd y tasgau ar gyfer yr uned hon yn statig ac yn gofyn am ymateb personol gan ddysgwyr. Bydd dewis o friffiau ar gyfer yr uned hon. Bydd y dewis o friffiau yn cael eu rhyddhau'n flynyddol ym mis Mehefin, gydag asesiad wedi'i gyflwyno'r gyfres haf ganlynol, a ddylai rhoi digon o amser i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol.

Yn unol â'r cymhwyster presennol, bydd rhai tasgau gyda rheolaeth uchel ac eraill â rheolaeth is. Mae angen elfen o reolaeth uchel i helpu i sicrhau lefel o degwch, dilysrwydd a dibynadwyedd. Fodd bynnag, ystyrir bod rheolaethau is yn briodol ar gyfer tasgau mwy creadigol gan mai pwrpas y tasgau hyn yw annog gwreiddioldeb, archwilio a meddwl annibynnol. Mae’r amseriadau a'r cyfrif geiriau ar gyfer pob adran (oddeutu 750 o eiriau felly cyfanswm o 1500 ar gyfer y ddwy adran) yn debyg i'r gofynion presennol.

Bydd dewis o destunau wedi'u categoreiddio o dan y tair thema eang. Bydd hyn yn darparu dewis a hyblygrwydd i ganolfannau. Caniateir i ganolfannau ddewis testunau ychwanegol o fewn y tair thema eang. Bydd canllawiau a pharamedrau ar waith ar gyfer dewis testunau ychwanegol. Mae'r hyblygrwydd hwn yn caniatáu i ganolfannau deilwra dysgu i ddiddordebau a phrofiadau eu dysgwyr, gan helpu i ennyn diddordeb a chefnogi cynhwysiant tra'n sicrhau bod y cymhwyster yn parhau i fod yn gyfredol ac yn berthnasol. Mae'r dull hwn yn adeiladu ar ethos, gwerthoedd, ac egwyddorion sy'n canolbwyntio ar y dysgwr yng Nghwricwlwm Cymru, y bydd dysgwyr wedi'u profi, yn enwedig y pwyslais ar berthnasedd, dilyniant, a phrofiadau dilys. Mae Adran A yn gofyn am ymateb i'r cerddi yn un o'r ffurfiau ysgrifenedig a nodwyd. Mae hyn yn sicrhau dewis o ffurfiau priodol sy'n helpu i'w wneud yn fwy diddorol i ddysgwyr. Mae dewis o ffurfiau ysgrifenedig priodol wedi'u nodi ar gyfer yr ymateb creadigol (Adran B) sydd unwaith eto yn darparu dewis ac yn cynyddu ymgysylltiad i ddysgwyr.

### Uned 4

Mae'r Meini Prawf Cymeradwyo yn nodi y dylai'r cymhwyster ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr gael eu sgiliau llafaredd wedi'u hasesu yn UG a Safon Uwch. Dylai'r asesiadau llafaredd gynnwys cyfleoedd i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau, gan gynnwys llenyddol ac anllenyddol.

Er mwyn bodloni'r gofynion hyn, bydd Uned 4 ar ffurf arholiad llafar sy'n werth 25% o'r cymhwyster cyffredinol. Yn unol â'r Meini Prawf, bydd yr uned hon yn cael ei hasesu gan arholwr allanol wyneb yn wyneb. Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu yn ystod tymor y gwanwyn y flwyddyn olaf o astudio, gan sicrhau bod dysgwyr yn cael digon o amser i ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol. Mae'r asesiad yn cynnwys dwy gydran: tasg pâr/grŵp a thasg unigol. Mae'r tasgau hyn yn galluogi dysgwyr i ddangos eu galluoedd ieithyddol mewn gwahanol gyd-destunau. Mae'r asesiad yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr gyfathrebu'n ddigymell, o fewn trafodaeth grŵp ac yn annibynnol, ynghyd â chyflwyniad mwy strwythuredig sy'n efelychu tasgau sy'n gysylltiedig â gwaith. Yn unol â'r gofynion, bydd elfen synoptig i'r uned hon, a bydd dysgwyr yn ystyried themâu, syniadau a thestunau a archwilir fel rhan o unedau eraill o'r cymhwyster hwn. Bydd dysgwyr hefyd yn



© WJEC CBAC Ltd.

trafod gwaith llenyddol ac anllenyddol a archwilir mewn unedau eraill o'r cymhwyster yn unol â'r gofynion.

### Uned 5

Bydd tasgau'n cynnwys gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith sy'n hyrwyddo ymgysylltiad ac yn darparu cyd-destun dilys ac ystyrlon ar gyfer datblygu a chymhwyso sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth. Yn unol â'r gofynion, bydd elfen synoptig i'r uned hon, lle mae'n rhaid i ddysgwyr dynnu ar wybodaeth a sgiliau ieithyddol a ddatblygwyd ar draws y cwrs a'u cymhwyso er mwyn nodi a chywiro gwallau gramadeg, gyda chyfiawnhad priodol.



© WJEC CBAC Ltd.